

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR AM 7y.h. NOS FAWRTH 25 EBRILL 2017.

PRESENNOL:

Cynghorydd Mrs. C. L. McDermott - Cadeirydd

Cynghorwyr: J. Abbott M.B.E., Alan Benson, Mrs S. Conrad-Smith, Ms A. D. McCann, Geoff McGinn, Eric Roberts, H. B. Rowlands ac D. Rhys Thomas J. P.

Roedd Cynghorydd Stephen Magee yn bresennol o 7.30y.h.

Cynghorwyr Sir: Jeff Evans a Trefor Lloyd Hughes M.B.E

1. **YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd E. Gwynfor Williams.

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB:** Cyng. Stephen Magee eitem 12.1.

Cytunwyd i drafod cais cynllunio 12.1 46C137F The Old Cricket Ground, Lôn St Ffraid, Bae Trearddur ar ddechrau'r cyfarfod a cyn i'r Cynghorydd Stephen Magee gyrraedd am ei fod wedi datgan diddordeb sy'n rhagfarnu yn y cais.

Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw yn ôl ar gyfer codi 18 o anheddau ynghyd â ffurfio mynedfa newydd i gerbydau

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais ar y seiliau canlynol:

1. Am nad oedd y datblygiad yn bodloni anghenion tai'r gymuned, nid oedd unrhyw fwriad o gynnwys tai fforddiadwy yno. Roedd gan Bae Trearddur nifer o safleoedd lle rhoddwyd caniatâd cynllunio i nifer o dai sydd heb eu hadeiladu .
2. Gor ddatblygiad o'r safle - byddai cyfanswm o 34 o anheddau 3 llawr yno.
3. Gan fod y datblygwr wedi codi lefel y tir byddai'r datblygiad yn sefyll yn llawer iawn uwch na'r cynllun ar gyfer 17 o anheddau oedd eisioes wedi eu caniatáu. Byddai 34 o anheddau 3-lawr ar dir oedd wedi ei godi'n annaturiol uwch mewn man amlwg yn y pentref yn cael effaith negyddol ar yr ardal a'i thrigolion.
4. Diffyg parcio ar y safle
5. Roedd y datblygiad yn debygol o greu mwy o lifogydd, roedd y datblygwr wedi codi lefel y safle er mwyn sicrhau na fyddai ei phreswylwyr yn cael

Arwyddwyd.....(Cadeirydd)

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDUR A GYNHALIWDY YN NEUADD BENTREF BAE TREARDUR AM 7y.h. NOS FAWRTH 25 EBRILL 2017.

problem gyda llifogydd ond roedd hyn wedi creu mwy o broblem i eraill. Mae'n amlwg yn barod nad yw'r gwaith sydd wedi'i wneud ar yr amddiffynfeydd môr a darpariaeth gyliau i lawr ochr y safle yn ddigon i arbed llifogydd. Mae codi uchder y safle wedi cael yr effaith o ailgyfeirio llif naturiol y dŵr sy'n llifo tuag at gyffordd ffordd Ravenspoint i lawr Lôn St Ffraid i amharu ar eiddo eraill.

6. Roedd y cais i symud y fynedfa ymhellach i lawr Lôn St Ffraid a'i a chodi'n sylweddol er mwyn sicrhau bod y llifogydd yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth y ddatblygiad yn mynd i amharu ar eiddo eraill.
7. Byddai datblygiad o'r faint yma ar safle sydd wedi ei chodi yn creu mwy o ddŵr arwynebol i achosi difrod mewn mannau eraill.
8. Seilwaith annigonol - byddai symud y fynedfa i lecyn prysur lle mae busnesau lleol sef y swyddfa'r post, siop fwyd a papurau a'r caffi Sea Shanti yn cynyddu'r risg o anaf difrifol i gerddwyr gan fod problemau parcio a thraffig ceir a lorïau yn barod. Byddai'r datblygiad hwn yn effeithio' ar ansawdd bywyd y preswylwyr presennol.
9. Ni fydd y datblygiad o fudd i'r economi na'r amgylchedd, bydd hefyd yn cael effaith weledol o'r môr mewndirol. Dylid ystyried y ffaith bod y môr mewndirol yn ardal SoDdGA.
10. Ni fydd y tai yn fforddiadwy i bobl leol a ni fydd yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

Penderfynwyd gofyn bod Aelodau'r Cyngor Sir a'r Swyddogion Cynllunio yn ymweld â'r safle a siarad gyda'r trigolion lleol cyn dod i unrhyw benderfyniad ar y cais hwn.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Stephen Magee ar ôl diwedd y drafodaeth.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL:

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau fod y cofnodion yn gywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION:

4.1 Maes Parcio Bae Trearddur

Gofynnwyd i'r clerc atgoffa'r Cyngor Sir am gyflwr y maes parcio.

4.2 Goleudy Ynys Lawd

Dyweddodd Cyng. Stephen Magee fod y cyfarfod gyda grŵp treftadaeth

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR AM 7y.h. NOS FAWRTH 25 EBRILL 2017.

Caergybi i gael eu trefnu yn fuan.

5. GOHEBIAETH:

5.1 Canlyniad Etholiad Diwrthwynebiad:

Cyhoeddwyd fod y Cynghorydd E. Gwynfor Williams wedi penderfynu rhoi ei sedd i fynnu ar ôl 48 o flynyddoedd fel Cynghorydd ar Gyngor Cymdeithas Trearddur, cytunwyd y byddai'r clerch yn ysgrifennu ato i ddiolch iddo.

Fe etholwyd y canlynol yn Gynghorwyr i Gyngor Cymdeithas Trearddur yn ddiwrthwynebiad.

Jack Thomas Abbott M.B.E., Alan Benson, Susan Gail Conrad-Smith, Stephen Bernard Magee, Anwen Denise McCann, Cyndy McDermott, Geoffrey David McGinn, Paula Margaret Parry, Eric Roberts, Keith Robert Roberts, Bill Rowlands a Dafydd Rhys Thomas.

5.2 Pwyllgor Safonau - Nodyn Briffio ar Ddiddordebau Personol a Rhagfarnol:

Cyflwynwyd a nodwyd. - Roedd hwn wedi cael ei baratoi fel arweiniad i Gynghorwyr Tref a Chymuned Ynys Môn ar ofynion y Còd Ymddygiad ar gyfer datgelu diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu.

5.3 Pwyllgor Safonau - Nodyn Briffio ar Ddatgan a Chofrestru Diddordebau yn y Cyngorau Tref a Chymuned:

Cyflwynwyd a nodwyd - Roedd yn ofynnol fod hwn yn cael ei roi ger bron yr Aelodau yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai.

5.4 Adolygiad y Pwyllgor Safonau:

Cyflwynwyd a nodwyd - Fe gynhaliwyd adolygiad o gofrestrau diddordeb yr aelodau mewn sampl o Gyngorau Tref a Chymuned. Ymgais y broses oedd ceisio cynorthwyo'r Cyngorau drwy rannu arfer da ac amlygu materion cyffredin y mae angen eu gwella.

Penderfynwyd: rhannu copi o'r adroddiad i'r Aelodau yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai.

6. SAFLE HAMDDEN:

Adroddwyd fod y Cyngor Sir yn mynychu gwrandawriad Llŷs i geisio datrys mater y brydles ar 19 Mai 2017.

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR AM 7y.h. NOS FAWRTH 25 EBRILL 2017.

7. CYFRANIADAU:

Cyflwynwyd: cais am rodd gan Glwb Pêl-droed Bae Trearddur

Penderfynwyd: aros tan ar ôl y gwrandawriad Llys ar 19 Mai 2017 cyn ystyried y cais.

8. ADRODDIADAU CYNGHORWYR:

Cynghorydd Bill Rowlands:

Dywedodd ei fod wedi trefnu i gael bin sbwriel newydd yn lle'r un a ddifrodwyd ym maes parcio'r Black Seal, roedd wedi trefnu cyfundrefn newydd ar gyfer gwagio'r biniau ar y safle chwarae ac fe drefnodd i gael sgip ailgylchu ar y prif faes parcio.

Roedd y gwaith ar y toiledau cyhoeddus wedi ei orffen cyn gwyliau'r Pasg ac roedd y tywod ym mhen dwyreiniol y promenâd wedi ei glirio.

Cynghorydd Susan Conrad Smith:

Roedd Mynwent Maeshyfyd wedi derbyn rhywfaint o sylw gwael yn ddiweddar ond roedd y materion hynny wedi eu datrys yn syth.

9. CYLLID, GWEINYDDU A RHEOLI RISG:

9.1 Adroddiad Ariannol Misol:

Rhoddyd copi o gyfrifon terfynol 2016/17, copi o gysoniad banc a datganiadau banc Mawrth 2017 i bob Cynghorydd.

9.2 Cytunwyd i weithredu'r dyfarniad cyflog 'NJC Local Government Terms and Conditions' o 1 Ebrill 2017.

9.3 TALIADAU - Penderfynwyd: Cadarnhau a thalu'r canlynol:-

1451	O. Sutton	Wefan	£254.00
1453	J. D. Roberts	Archwilydd Mewnol	£69.00
1454	One Voice Wales	Hyfforddiant	£70.00
1455	E. M. Owen (Ebrill)	Cyflog	£343.58
1456	H.M.R.C (Ebrill.)	Treth Incwm	£85.90

10. UNRHYW FATER BRYS ARALL: Dim.

11. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO:

11.1 **46C573 Rhos y Gadar, Lôn Isallt, Bae Trearddur - cytunwyd**

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDUR AM 7y.h. NOS FAWRTH 25 EBRILL 2017.

11.2 **46C582/AD Maes Parcio The Range Car Park** - (arwyddion) - **cytunwyd.**

12. CEISIADAU CYNLLUNIO

12.1 **46C137F The Old Cricket Ground, Lon St Ffraid, Trearddur Bay.**

Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw yn ôl ar gyfer codi 18 o anheddau ynghyd â ffurfio mynedfa newydd i gerbydau – gweler uchod.

12.2 **46C168C/FR Trearddur House, Lôn St. Ffraid, Trearddur Bay.**

Cais llawn ar gyfer codi 4 annedd sydd yn cynnwys balconi - mynegwyd pryder am y gôr ddatblygiad o'r safle a'r ffaith nad oedd y ffiniau wedi eu marcio yn ddigon clir ar y cais.

12.3 **46C127A 1 Bro Iarddur, Trearddur Bay.**

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – dim gwrthwynebiad

12.4 **46C486E/ENF/LUC Tan y Graig, Trearddur Bay.**

Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol o'r bloc stabl, cytiau cŵn a man caled - dim gwrthwynebiad.

12.5 **46C288B 67 Trearddur Road, Trearddur Bay.**

Cais llawn i godi annedd newydd sydd yn cynnwys modurdy - dim gwrthwynebiad.

12.6 **46C288C/SCR Iroko 67 Trearddur Road, Bae Trearddur.**

Barn sgrinio ar gyfer codi annedd newydd sydd yn cynnwys modurdy - nodwyd

12.7 **46C565A Bryn Awel, Lon Penrhyngarw, Bae Trearddur.**

Cais llawn i godi annedd sydd yn cynnwys 2 falconi – dim gwrthwynebiad

13. CYFARFOD BLYNYDDOL 15 o Fai 2017 - am 7 o'r gloch.

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A
GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR AM 7y.h. NOS
FAWRTH 25 EBRILL 2017.**

Arwyddwyd.....(Cadeirydd)